



PECYN CYMORTH
I FUSNESAU



FE WNEUTHUR EIN TIR
O'R SANCTAIDD DRI.

FE ALWN NI ARNOCH
– AWYR, MÔR A THIR.

Abereiddi,
Sir Benfro

CYNNWYS

- 4 Cyflwyno Llwybrau Celtaidd
- 6 Pam Llwybrau Celtaidd
- 9 Beth ydyw?
- 10 Ac ar gyfer pwy
mae'r prosiect hwn?
- 12 Crynodeb o Lwybrau Celtaidd:
Ein Stori
- 14 Ein brand
- 16 Tôn Llais Llwybrau Celtaidd
- 18 Map Llwybrau Celtaidd
- 20 Llwybrau Celtaidd: Bannau
- 26 Llwybrau Celtaidd: Eiliadau
- 32 Llwybrau Celtaidd: Themâu
- 46 Hyrwyddo Llwybrau Celtaidd
- 48 Pethau bychain
- 50 Asedau Brand
- 52 Addewid Llwybrau Celtaidd
- 54 Manylion Cyswllt
Llwybrau Celtaidd

CYFLWYNO LLWYBRAU CELTAIDD

Mae Llwybrau Celtaidd yn brosiect ar y cyd rhwng Cyngorau Sir Ceredigion a Chaerfyrddin, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yng ngorllewin Nghymru a Chyngorau Sir Waterford, Wexford a Wicklow yn ne-ddwyrain Iwerddon. Ei ddiben yw cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant yn yr ardaloedd nad yw pobl yn ymweld â nhw'n draddodiadol sydd ar hyd y prif ffyrdd rhwng y mannau mynediad a'r atyniadau twristiaeth mwyaf adnabyddus y tu hwnt i'r mannau hynny.

Mae'r prosiect yn werth €1.99m ac mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020 yr Undeb Ewropeaidd.

Cafodd prosiect Llwybrau Celtaidd ei lansio ym mis Hydref 2019 a bydd y ffês cyntaf yn parhau tan Fawrth 2021.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn gyflwyniad i'r Llwybrau Celtaidd ar gyfer busnesau twristiaeth, cyrchfannau, rhanddeiliaid a'r diwydiant teithio. Mae'n crynhoi'r cynnig Llwybrau Celtaidd a bwriedir iddo fod yn sylfaen ar gyfer gweithgarwch datblygu a marchnata yn y dyfodol.

Ffario yn Nyffryn Avoca,
Wicklow

Mae'r hyn y byddwch yn ei ddarllen wedi cael ei lywio gan ymchwil canfyddiadau ymwelwyr, gweithdai i bartneriaid i nodi themâu cyffredin, archwiliadau o'r asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth ym mhob un o'r 6 sir ac ymchwil i'r farchnad i gasglu gwybodaeth am farchnadoedd targed.

I'n helpu ni i ddatblygu cynnig clir a chryf, rydym hefyd wedi bod yn siarad â rhanddeiliaid posibl ar draws y siroedd partneriaeth. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd yr amser hyd yn hyn i rannu eu cyngor a'u profiad â ni, ac edrychwn ymlaen at gynnal mwy o weithdai i gyflwyno cyfleoedd i gydweithio ac i rannu canlyniadau prosiectau a'r hyn sydd wedi'i ddysgu.

Yn y tudalennau hyn, rydym yn disgrifio ein math o ymwelydd targed, yn cyflwyno model y brand sy'n diffinio'r cynnig Llwybrau Celtaidd a naratif y brand sy'n cyfleu'r ysbryd Llwybrau Celtaidd.

Ond nid yw hyn yn ymwneud â'r brand yn unig. Rydym hefyd yn cynnwys copi enghreifftiol ar gyfer detholiad o'r profiadau sydd wedi'u cynnig hyd yn hyn a rhai awgrymiadau syml ynghylch sut y gallwch ddechrau eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

PAM LLWYBRAU CELTAIDD?

Mae gennym stori i'w hadrodd wrthych.

Am ddwy genedl wedi'u gwahanu gan y môr ac sydd eto wedi'u cysylltu â chwlwm anwahanadwy.

Dwy genedl â'r un gwaed hynafol yn llifo trwy ein gwythiennau, y mae'r un dylanwadau wedi llunio ein hanes.

Dwy genedl sy'n dal i weld rhyfeddod y byd naturiol ac sy'n ei ddefnyddio i ddod â chydbwysedd a chytgord i'n byd prysur.

Dwy genedl a fydd yn cwrdd mewn cystadleuaeth, ond sy'n dathlu buddugoliaethau ei gilydd ac yn uno mewn colled.

Dwy genedl sy'n hoff iawn o stori dda ac yn ei hadrodd yn ein dull telynegol ein hunain.

A dwy genedl a fydd yn eich croesawu fel dieithryn, ond a fydd yn gofalu ein bod yn ymwahanu fel ffrindiau.

Mae'r prosiect Llwybrau Celtaidd wedi cael ei lunio i ddwyn ynghyd yr asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth tebyg sydd gan y 6 sir partneriaeth yn gyffredin a hyrwyddo'r asedau hynny er mwyn cynyddu niferoedd yr ymwelwyr a sicrhau'r incwm mwyaf posibl yn yr economïau lleol perthnasol. Er bod pob un o'r siroedd hyn yn gyrchfannau twristiaeth llwyddiannus yn eu rhinweddau eu hunain, ystyrir bod ffurfio'r bartneriaeth hon yn allweddol er mwyn annog ymwelwyr presennol a newydd i grwydro'n llawer ehangach, ymhell o'r prif ffyrdd a'r atyniadau twristiaeth mwyaf adnabyddus.

Llansteffan,
Sir Gâr



Slieve Coillte,
Wexford

LLWYBRAU CELTAIDD **BETH YDYW?**

Casgliad yw Llwybrau Celtaidd o brofiadau twristiaeth â brand, sy'n annog y rhai sy'n ymweld ag Iwerddon a Chymru i ddarganfod yr ysbryd Celtaidd drwy gynnig nifer o brofiadau gwirioneddol Geltaidd yng ngorllewin Cymru a de-ddwyrain Iwerddon.

Trá na mBó, Waterford



AR GYFER PWY MAE'R PROSIECT HWN? EIN HYMWELWYR TARGED A'N PRIF FARCHNADOEDD

Mae'n bwysig gwybod rhywbeth am eich ymwelwyr posibl er mwyn ichi allu targedu eich gweithgarwch marchnata'n effeithiol. Gallwch hefyd sicrhau bod yr hyn yr ydych yn ei gynnig yn cyd-fynd â'r mathau hyn o ymwelwyr. Dyma'r mathau o ymwelwyr y bydd Llwybrau Celtaidd yn eu targedu:

POBL SY'N CHWILIO AM ANTUR A DIWYLLIANT

Cyplau, 40+ oed yn bennaf. Y rhan fwyaf yn perthyn i'r dosbarth canol ac ar incwm uwch.

Am beth maen nhw'n chwilio?

Amrywiaeth da o atyniadau hanesyddol, trefi a dinasoedd diddorol a golygfeydd hardd. Diddordeb yn niwylliant a ffordd o fyw'r bobl leol a chael profiadau dilys.

Cei Newydd, Ceredigion



Mae ein hymchwil i'r farchnad yn dangos bod Llwybrau Celtaidd yn debygol o apelio at ymwelwyr o'r DU, Iwerddon, Ffrainc, yr Almaen a'r Unol Daleithiau, sydd eisoes wedi ymweld ag Iwerddon neu Gymru, neu sy'n ymweld ag Iwerddon neu Gymru ar hyn o bryd neu sy'n ystyried ymweld ag Iwerddon a Chymru. Dyma ein prif farchnadoedd.

Wrth reswm, mae Llwybrau Celtaidd yn debygol o ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Ond drwy ganolbwyntio ein gweithgarwch hyrwyddo ar y marchnadoedd uchod, byddwn yn sicrhau ein bod yn cael yr elw gorau posibl o'n hymdrechion a'n buddsoddiad.

POBL EGNÏOL SY'N CHWILIO AM ANTUR

Cyplau, pobl sengl a grwpiau o ffrindiau. Ystod oedran eang.

Am beth maen nhw'n chwilio?

Maen nhw am fynd i leoedd llai cyfarwydd ac yn cael eu hysgogi gan weithgareddau, golygfeydd a chefn gwlad ac arfordir heb eu difetha.

Traeth Kilfarrassy, Waterford



TEULUOEDD EGNÏOL SY'N CHWILIO AM ANTUR

Dosbarth canol yn bennaf â phlant dan 15 oed.

Am beth maen nhw'n chwilio?

Chwilio am lawer i'w wneud, hwyl, antur a gweithgareddau, archwilio a darganfod er mwyn gwneud y gorau o'u hamser gyda'i gilydd.

Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro



CRYNODEB O LWYBRAU CELTAIDD: EIN STORI

Dywedir bod teithio'n ehangu'r meddwl. Ond mae rhai teithiau'n gwneud llawer mwy na hynny. Maen nhw'n rhoi cyfle i chi weld y byd drwy lygaid gwahanol. I weld cysylltiad byw â byd natur. I weld hanes a chwedl yn dod ynghyd mewn lleoedd ysbrydol. I weld cydbwysedd a chytgord yn ein byd prysur.

Llwybrau Celtaidd yw'r teithiau hyn.

I'r hynafiaid, roedd ysbryd naturiol yn llenwi pob mynydd, afon, coeden a charreg. Buont yn byw mewn cytgord â'r ysbrydion hyn gan greu ffordd o fyw sy'n cyd-fynd â'r graen naturiol.

Mae'r ffordd hon o fyw yn parhau yng ngorllewin Cymru a Dwyrain Hynafol Iwerddon.

Dilynwch Llwybrau Celtaidd a byddwch yn teithio ar ffyrdd llai cyfarwydd i diroedd sy'n dal i ddilyn rhythm y gwahanol dymhorau. Byddwch yn darganfod croesau hynafol, adfeilion capeli a cherrig sanctaidd. Byddwch yn clywed rhythmau'r byd naturiol yn ein lleisiau wrth i ni adrodd chwedlau celwydd golau am seintiau a phechaduriaid. Byddwch yn crwydro tirweddau gwyllt sy'n ysbrydoli anturiaethau bob dydd. Byddwch yn dod ar draws pentrefi lliwgar lle mae gan bobl amser i chi ac i'ch gilydd.

Mae pob un o'r Llwybrau Celtaidd yn eich tynnu'n nes at yr arfordir a chefn gwlad, y bobl a'r lleoedd, a luniodd ddiwylliant cyfoethog sy'n dal i gael ei rannu gan ddwy wlad. Diwylliant sydd bob amser wedi rhoi croeso cynnes i deithwyr a ffarwel serchog i ffrindiau newydd.

Sugarloaf,
Wicklow

LWYBRAU CELTAIDD: EIN BRAND

Wrth wraidd y model Llwybrau Celtaidd mae syniad y brand: Darganfyddwch yr ysbryd Celtaidd.

Dyma'r syniad mawr sy'n dod â phopeth ynghyd, ond nid yw'n slogan ac ni fydd byth yn ymddangos ar ein gwefan neu mewn llyfryn (ar wahân i yma!). Fodd bynnag, bydd yn ysbrydoli ein holl gyfathrebu.

Ategir syniad y brand gan werthoedd y brand, sef y themâu sy'n codi dro ar ôl tro a fydd yn llywio holl weithgarwch marchnata Llwybrau Celtaidd ac unrhyw fentrau datblygu cynnyrch.

Mae profiadau'r brand yn diffinio'r pethau y mae angen i Llwybrau Celtaidd eu cynnig i ymwelwyr. Mae'r rhain yn ein helpu i ddewis y cynhyrchion mwyaf addas i adeiladu Llwybrau Celtaidd arnynt.




Gwarchodfa Adar, Wexford

GWERTHOEDD

SYNIAD

Y PROFIAD



LLWYBRAU CELTAIDD TÔN LLAIS

Mae angen i'n hymagwedd at iaith a negeseuon, yn ogystal â'n tôn, apelio at yr awydd am antur sy'n perthyn i ni i gyd. Rydym am eu denu ac ennyn eu diddordeb. I ryw raddau mae angen i'n personoliaeth ni adlewyrchu eu personoliaeth nhw – tôn ac arddull sy'n cysylltu ag archwilwyr ac sy'n eu hysbrydoli. Ysbrydolir ein tôn a'n harddull gan bileri'r brand.

Felly, ein gwerthoedd o ran tôn yw:

Cyfoes, Llawn Gwybodaeth, Dilys, Cyfriniol, Deniadol

CYFOES

Mae Llwybrau Celtaidd yn brofiad newydd i dwristiaid sy'n cyflwyno diwylliant Celtaidd i gynulleidfa newydd. Wrth reswm, bydd yn cynnwys hanes Celtaidd cyfoethog y chwe sir hyn, ond dylai ddangos sut y mae'r dreftadaeth Geltaidd hon wedi llunio pwy yr ydym yn awr, a sut y byddwn yn byw yn y dyfodol.

LLAWN GWYBODAETH

Mae Llwybrau Celtaidd yn brofiad teithio wedi'i guradu. Felly, er ein bod am i deithwyr ei ddarganfod drostynt eu hunain, mae angen i ni eu rhoi ar ben ffordd.

DILYS

Mae'r bobl Geltaidd â'u traed ar y ddaear. Pobl y pridd, a phobl onest a dilys iawn. Mae gwerthoedd Celtaidd hynafol, sef deyrngarwch, cyfiawnder a dewrder, yn amlygu'r nodweddion clodwiw hyn. Mae'n rhaid i'r brand Llwybrau Celtaidd ddweud y gwir heb ddefnyddio iaith flodeuog na gor-ddweud. Gadewch i ryfeddod naturiol Llwybrau Celtaidd siarad drosto'i hun.

CYFRINIOL

Roedd y Celtiaid yn bobl ysbrydol iawn. Roedd ganddynt barch mawr at eu hamgylchedd naturiol. Buont yn addoli duwiau'r tir, y moroedd a'r awyr. Mae angen i'r brand Llwybrau Celtaidd fanteisio ar yr elfen ysbrydol hon, i rannu mythau a chwedlau'r rhan hon o'r byd ac ysbrydoli'r ymwelydd i ymgolli yn y tiroedd hudolus hyn.


DENIADOL

Rhan fawr o'r profiad Llwybrau Celtaidd yw cwrdd â'r bobl Geltaidd. Dylai ein brand siarad fel y bobl hyn. Storiwyr naturiol â goslef Geltaidd. Dylai ein tôn fod yn gynnes ac yn naturiol a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai ein harddull fod yn sgysiol, gan greu ymdeimlad ein bod yn adrodd straeon yn uniongyrchol i'r darllenydd nid yn unig yn defnyddio'r ystrydebau twristiaeth arferol.

Llyn y Fan,
Sir Gâr

LLWYBRAU CELTAIDD

MAP



LLWYBRAU CELTAIDD BANNAU

Gall 'ban' fod yn atyniad, yn weithgaredd, yn brofiad neu'n ddigwyddiad, ond dylai fodloni o leiaf 5 o'r meini prawf canlynol:

- Profiad y gallwch ymgolli ynddo
- Yn ymwneud â'r tir, y môr neu fyd natur
- Yn adrodd stori'r lle
- Yn adrodd stori Geltaidd
- Yn cynnwys hanes neu dreftadaeth
- Yn ddilys
- Yn cyfoethogi tras
- Yn cysylltu Cymru ac Iwerddon

Y Bannau Celtaidd yw'r mannau lle byddwch yn dod o hyd i'r golygfeydd, y synau a'r straeon a luniodd ein rhannau ni o'r byd. Bydd pob un o'r Bannau yn datgelu cipolwg o eiliad arbennig yn ein hanes, boed hynny 2,000 o flynyddoedd yn ôl, 200 o flynyddoedd yn ôl neu o fewn cof byw. Ond wrth i chi roi'r darnau hyn ynghyd, byddwch yn raddol yn adeiladu darlun llawn o'r rhanbarthau a'r bobl fel yr ydym heddiw – ac yn debygol o fod yn dyfodol.

Wrth gwrs, mae rhai o'r lleoedd hyn ymhlith ein prif atyniadau i dwristiaid. Ond dim ond trwy ddilyn ffyrdd llai prysur, drwy ddiffodd y llywiwr lloeren a dibynnu ar eich greddf (ac efallai ar fap hen ffasiwn) y byddwch yn dod o hyd i lawer ohonynt. Oherwydd po fwyaf y mentrwch oddi ar y llwybrau cyfarwydd, y gorau y byddwch yn dod i'n hadnabod. Gallech hyd yn oed fod yn gwneud eich Llwybrau Celtaidd eich hun.

Glendalough,
Wicklow

ENGHREIFFTIAU O FANNAU

LLYN Y FAN FACH A BANNAU BRYCHEINIOG SIR GÂR

Yn Llyn y Fan Fach ym mhen gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog byddwch yn dod o hyd i lyn rhewlifol hudolus. Cysylltir y Llyn â chwedl 'Morwyn y Llyn' o'r 14eg ganrif. Yn y stori hon, mae ffermwr ifanc yn priodi merch hardd sydd wedi dod allan o'r llyn, gan addo na fyddai'n ei tharo dair gwaith. Wedi iddi gael ei daro ganddo dair gwaith (er byth mewn dicter), mae hi'n mynd yn ei hôl i'r llyn. Mae hi'n dychwelyd am gyfnod byr i gyfarwyddo ei meibion, sy'n mynd ymlaen i fod yn feddygon, a adwaenir heddiw fel 'Meddygon Myddfai'.

Islaw'r brynau saif tref farchnad hardd Llanymddyfri. Yma ceir cerflun 5 metr o uchder o Lywelyn ap Gruffydd Fychan wedi'i wneud o ddur gwrthstaen. Caiff ei adnabod fel 'Braveheart' Cymru, a chafodd ei ddienyddio yma gan Harri IV fel cosb am ei gefnogaeth i Owain Glyndŵr.

ABERYSTWYTH CEREDIGION

Mae gan Aberystwyth, a elwir yn gyffredin yn 'Aber', sail ddilys dros fod yn brifddinas diwylliant Celtaidd Cymru. Yn ogystal â bod yn dref brifysgol, mae hefyd yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd mewn adeilad trawiadol yn edrych dros fae'r dref, bryngaer hynafol ac adfeilion castell. Mae'r cyfadeilad hefyd yn gartref i'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a cheir arddangosfeydd, anerchiadau a theithiau rheolaidd i archwilio'r archifau a'r casgliadau enfawr. Mae Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn ganolbwynt ar gyfer arddangos diwylliant Cymraeg cyfoes a diwylliant rhyngwladol ar draws pob ffurf gelfyddydol, gan gynnwys theatr, dawn, cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol, adrodd straeon a chomedï.

SIAMBR GLADDU PENTRE IFAN SIR BENFRO

Adeiladwyd o'r un Garreg Las o'r Preseli ag â ddefnyddiwyd yn ei 'frawd mawr' sef Câr y Cewri neu Stonehenge. Mae Pentre Ifan, ger Trefdraeth (Sir Benfro) hefyd yn rhannu'r un ymdeimlad o ddirlgelwch ynglŷn â'i wir bwmpas. Yn gyffredinol ystyrir mai siambr gladdu gymunedol ydoedd, ond ni chanfuwyd unrhyw olion o esgyrn yma erioed. Awgryma damcaniaeth arall mai fersiwn mwy coeth o faen hir sydd yma ac mai dim ond dangos eu sgiliau yr oedd yr adeiladwyr. Beth bynnag yw'r ateb go iawn, does dim amheuaeth fod Pentre Ifan yn gamp drawiadol o ddulliau adeiladu hynafol. Mae'r maen capan enfawr, sydd 5 metr o hyd ac yn pwysu 15 tunnell, yn cydbwysu'n ofalus ar dri maen hir uniönsyth ac wedi llwyddo i aros yn ei le am dros 5,000 o flynyddoedd.

GEOPARC UNESCO YR ARFORDIR COPR SWYDD WATERFORD

Mae'r Arfordir Copr yn cael ei enw o'r cloddfeydd enfawr a oedd ar waith yn yr ardal yn ystod y 19eg ganrif, a adawodd etifeddiâeth archeolegol a diwylliannol ysbennedd ar ôl. Mae'n ymestyn am ryw 17km o Kilfarrasy yn y dwyrain i Stradbally yn y gorllewin a chafodd ei ddynodi yn Geoparc Byd-eang UNESCO yn 2004. Mae'r creigiau a'r geosafleoedd yn adrodd hanes y modd y gwnaeth llosgfynyddoedd tanfor, anialdiroedd a llenni iâ i gyd chwarae eu rhan wrth greu'r tirweddau a welwch chi heddiw. Mae'r stori ddynol yn egluro sut y mae pobl y rhanbarth wedi bod mewn cysylltiad di-dor â'r tirweddau hyn o'r hen oesau hyd heddiw.



Siambr Gladdu Pentre Ifan,
Sir Benfro


ENGHREIFFTIAU O BEACONS

PARC TREFTADAETH CENEDLAETHOL IWERDDON SWYDD WEXFORD

Pa ffordd bellach o ddarganfod treftadaeth Iwerddon na thrwy ymgolli yn y golygfeydd, y synau a'r storïau a gyfrannodd at lunio'r genedl? Wedi'i osod mewn 40 erw o goedwig llawn awyrgylch ychydig y tu allan i dref Wexford, mae Parc Treftadaeth Cenedlaethol Iwerddon yn darparu cyfle unigryw i brofi dros 9,000 o flynyddoedd o hanes Iwerddon. Teithiwch trwy Iwerddon gynhanesyddol, Iwerddon Gristnogol gynnar ac oes y goresgyniadau gan y Llychlynwyr ac, yn ddiweddarach, y Normaniaid. Archwiliwch adeiladau ac aneddiadau wedi'u hail-greu'n ofalus i weld sut roedd ymsefydlwyr cynharaf Iwerddon yn byw, yn gweithio ac yn ymladd. Chwilotwch fel ffermwr cynhanesyddol, taflwch fwyell fel pe baech yn Llychlynwyr a threuliwch noson mewn caer gron ganoloesol hyd yn oed.

BAE BRITTAS SWYDD WICKLOW

Three Mile Water ym Mae Brittas yw un o'r eangderau gorau o draeth ar arfordir y dwyrain a chredir mai yma y glaniodd San Padrig gyntaf yn Iwerddon. Heb unrhyw bentiroedd i amharu ar rythm tyner y tonnau wrth iddynt dorri ar y tywod, mae'r traeth 5km o hyd hwn yn fan delfrydol i ymdrochi, hwyllo a cherdded. Am chwe wythnos bob haf mae Bae Brittas yn troi'n lle chwarae i blant, wrth iddynt rasio drwy'r twyni a rhedeg i'r traeth. Fodd bynnag, am weddill y flwyddyn mae'r traeth ar y cyfan yn lle delfrydol i ymneilltuo o dwrf y byd a myfyrio. (100)



Brittas Bay,
Wicklow

LLWYBRAU CELTAIDD EILIADAU

Mae 'Eiliad' yn wir yn arddangos y profiad Celtaidd. Mae lleoedd ac amseroedd lle mae'r cysylltiad â'r gorffennol, y tir a'r ysbryd yn fwy dwys. Rydym am rannu'r eiliadau hyn ag ymwelwyr posibl. Dylai eiliadau gynnwys amser o'r dydd/blwyddyn neu leoliad penodol er mwyn i ymwelwyr wybod eu bod yn profi'r ysbryd Celtaidd ar ei anterth.

Yr Eiliadau Celtaidd yw'r hyn y byddwch chi'n ei wneud i ddod yn agosach fyth at ein diwylliant Celtaidd, trwy ymgolli eich hun yn y byd lle'r oedd y bobl Geltaidd yn byw - a lle maent yn byw o hyd. Efallai y byddwch yn sefyll ar ben crib rhyw fynydd sydd heb newid dim ers y cyfnod pan safai ein hynafiaid yno dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Efallai y byddwch chi'n profi ysbryd plentyn yn crio wrth i chi glywed hanesion am y ffordd greulon y byddai carcharorion yn cael eu trin mewn carchar yn y 18fed ganrif. Neu efallai y byddwch yn ymuno â thrigolion tref leol wrth nodi diwedd tymor pysgota llewyrchus arall trwy gynnal angladd ffug i bysgod.

Mae'r rhain yn eiliadau a fydd nid yn unig yn gwneud i chi ddeall beth yw bod yn rhan o'n diwylliant Celtaidd, ond yn gwneud i chi deimlo'r peth hefyd.

ENGHREIFFTIAU O EILIADAU

CHWILOTA A GLANYFFERI SIR GÂR

Roedd gan y Celtiaid gwlwm ysbrydol â'r byd naturiol ac roeddent yn credu bod y môr yn ffynhonnell o iachâd a glanhad, o fwyd ac o gyfoeth. Felly pa ffordd well o ymgolli yn y byd hwn na thrwy chwilota? Ar brofiad o chwilota'r arfordir ar hyd arfordir Sir Gaerfyrddin, byddwch yn dysgu sut i ddod o hyd i gimychiaid, cregyn gleision, cocos, sampier gwyllt, anemonau'r môr a chwpan Robin goch. Y wobr am eich ymdrechion fydd eich cinio diwastraff organig eich hun ar y traeth.

Yn hanesyddol roedd Glanyfferi yn bentref pysgota ac er bod y diwydiant yno wedi marw i raddau helaeth, mae hel cocos a physgota â rhwydi 'sân' traddodiadol yn dal i barhau. Y tu hwnt i'r pentref, mae'n bosibl dilyn yr arfordir i'r naill gyfeiriad neu'r llall, gan fynd i bentref coll Llanismel i'r de neu fywyd gwyllt y corstir i'r gogledd. Yn 2018, cafodd gwasanaeth fferi newydd Glansteffan ei ail-gysylltu â phentref Llansteffan am y tro cyntaf ers 60 o flynyddoedd.

GŴYL MECRYLL ABERAERON CEREDIGION

Does dim posibl fod yna lawer o wyliau lle mae'r dathliadau yn troi o amgylch angladd. Ac mae'n debyg nad oes yr un lle mae'r angladd honno ar gyfer pysgodyn papier-mâché 20 troedfedd o hyd. Ond dyma sut y mae trigolion tref harbwr bert Aberaeron yn nodi diwedd tymor y macrell tua diwedd mis Awst bob blwyddyn. Dyma eu ffordd nhw o roi diolch am y cyflenwad parhaus o scomber scombrus – neu'r macrell cyffredin – sydd wrth gyrraedd bob haf yn darparu bwyd ac incwm ac yn dod â'r dolffiniaid i Fae Ceredigion.

Mae amserlen y diwrnod fel rheol fel a ganlyn. Mae'r cynhebrwng – sy'n cynnwys model enfawr o facrell, a aiff ei gario gan 6 o gludwyr – yn cyfarfod y tu allan i westy'r Harbwrfeistr. Gwahoddir galarwyr i ddilyn y parti angladd ar draws y dref i Glwb Hwyllo Aberaeron, lle rhoddir bendith gan y ficer lleol. Yna cynhelir gwylnos (barbeciw, cerddoriaeth fyw a bar helaeth) ac wrth i'r haul fachlud caiff ein macrell ymadawedig ei gario i'r traeth a'i amlosgi.

EGLWYS GADEIRIOL TYDDEWI SIR BENFRO

Dinas ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi yw nodweddion amlycaf penrhyn mwyaf gorllewinol Sir Benfro. Dyma fan gorffwys Dewi Sant, nawddsant Cymru, ac mae'r Eglwys Gadeiriol wedi sefyll fel man sanctaidd a chyrchfan pererindodau am dros 800 o flynyddoedd. Yn yr Oesoedd Canol credai pobl fod dwy bererindod i Dyddewi yn gyfwerth ag un i Rufain.

Adeiladwyd y gadeirlan bresennol ar safle mynachlog o'r 6ed ganrif a sefydlwyd gan Dewi Sant i ddysgu cenhadon i ledaenu Cristnogaeth. Credir mai un o'r cenhadon hynny oedd San Padrig. Wrth i enw da Dewi Sant ymledu, tyfodd ei fynachlog a datblygodd cymuned. Yn anffodus denodd sylw'r Llychlynwyr hefyd, a ddaeth yno droeon i'w hysbeilio dros y canrifoedd nesaf. Yn y diwedd cymerodd y Normaniaid reolaeth dros y fynachlog a ddechreuasant adeiladu'r gadeirlan bresennol ym 1181.

Wedi goroesi cwmp ei thŵr, daeargryn a'r diwygiad Protestannaidd, mae'r gadeirlan yn parhau i wefreiddio ac ysbrydoli ei hymwelwyr, hyd yn oed ar ôl 800 mlynedd.

SAN DECLAN AC ARDMORE SWYDD WATERFORD

Yn y 5ed ganrif, daeth San Declan ar draws pentref Ardmore – dywedir iddo gael ei dywys yno gan garreg a gariwyd ar y tonnau – a sefydlodd fynachlog. Ei adeilion yw treffan Gristnogol hynaf Iwerddon. Heddiw, erys sawl safle o'i ddinas fynachaidd.

Mae yna areithfa o'r 8fed ganrif lle credir bod y sant wedi'i gladdu a thŵr crwn 29 metr o uchder o'r 12fed ganrif, a weithredai fel clochdy a lloches. Mae yna hefyd yr eglwys gadeiriol o'r 12fed ganrif, gyda gwaith bwaog Romanésg â ffigyrau'n darlunio golygfeydd o'r Hen Destament a'r Newydd – anarferol iawn yn Iwerddon. Y tu mewn i'r eglwys gadeiriol ceir dwy garreg Ogam sy'n cynnwys y ffurf gynharaf o ysgrifennu yn Iwerddon.

Mae'n werth cymryd y daith gerdded 4km ar hyd y clogwyn sy'n cychwyn ac yn gorffen yn y pentref er mwyn ymweld â Ffynnon San Declan, lle mae pererinion wedi talu teyrnged am gannoedd o flynyddoedd bob 24ain o Orffennaf, dydd gwyl y sant.

St Declan and Ardmore,
Waterford

ENGHREIFFTIAU O EILIADAU

MORFILOD YN BRIGO YN HOOK HEAD SWYDD WEXFORD

Mae mis Tachwedd yn nodi dechrau'r tymor gwyllo morfilod oddi ar Hook Head. Yn ôl yng ngaeaf 2010, roedd adroddiadau bod nifer o forfilod asgellog a morfilod cefngrwm wedi'u gweld oddi ar yr arfordir yn Hook Head. Mae'r morfilod wedi dychwelyd yn ôl bob blwyddyn ers hynny, ac mae'r morfil cefngrwm bellach yn cael ei gysylltu'n arbennig â'n hardal.

Mae'r balconi coch ar ben Goleudy Hook yn gwneud man gwyllo delfrydol gydag ysbieddych neu gallwch fynd ar daith siartredig mewn cwch i wyllo'r morfilod.

Mae morfilod cefngrwm ymhlith yr anifeiliaid mwyaf ar y ddaear, gan dyfu hyd at 16 metr o hyd a phwyso hyd at 40 tonn. Yn ddiweddar, mae arbenigwyr wedi dod o hyd i fagwrfa ar gyfer y morfilod cefngrwm 'Gwyddelig' yn ynysoedd Cape Verde. Mae hyn yn golygu eu bod yn teithio bron i 5,000km bob blwyddyn, trwy rai o lonydd cludo prysuraf y byd i gyrraedd ein tiroedd bwydo cyfoethog. Mae hyn yn gwneud gweld un yn brigo'r dyfroedd yma hyd yn oed yn fwy rhyfeddol.

CERDDED AR HYD FFORDD WICKLOW SWYDD WICKLOW

Ychydig i'r de o Ddilyn, mae Swydd Wicklow - a elwir yn Ardd Iwerddon - yn ehangder gwyllt o arfordir, coetir a mynyddoedd mawreddog a thrwyddo rhed llwybr cerdded mwyaf poblogaidd y wlad. Ffordd Wicklow yw llwybr hynaf Iwerddon, gweledigaeth y cerddwr enwog J B Malone, a agorwyd ym 1980. Mae ffordd Wicklow yn dechrau ym maestref ddeheuol Rathfarnham yn Nulyn ac yn teithio ar draws ucheldiroedd Dilyn a Wicklow, ac yna trwy fryniau tonnog de-orllewin swydd Wicklow, cyn gorffen ym mhentref bach Clonegal ar y ffin rhwng Wicklow a Carlow, 127km yn ddiweddarach. Mae cyfuniad o barcdir maestrefol, llwybrau coedwig, llwybrau mynydd a chefn gwlad bryniog yn cynnig profiad amrywiol ac, ar brydiau, heriol i gerddwyr am 7-10 diwrnod. Ar y ffordd byddwch chi'n mynd heibio i lynnoedd hardd, gerddi ysblennydd, plastai cain o'r 18fed ganrif ac adfeilion treflan fynachaidd Gristnogol cynnar.



Hook Head,
Wexford

LLWYBRAU CELTAIDD THEMÂU

Bydd Llwybrau Celtaidd yn hyrwyddo amrywiaeth o themâu cynnyrch gan adlewyrchu cryfderau cyfunol y 6 sir, sef: Anturiaethau Celtaidd, Treftadaeth Geltaidd, Tiroedd a Moroedd Celtaidd, Storïau Celtaidd, Lleoedd Celtaidd a Phobl Geltaidd.

Aberystwyth,
Ceredigion

ANTURIAETHAU CELTAIDD

Roedd Celtiaid Cymru ac Iwerddon yn profi'r byd mewn tri dimensiwn: Awyr, Tir a Môr.

Ac mae'r dimensiynau hyn yn dal i fod yn faes antur delfrydol:

YR AWYR

Pa ffordd well o geisio cysylltiad ysbrydol â man arbennig na thrwy astudio'r sêr mewn Safle Darganfod Awyr Dywyll?

TIR

Y mynegiant amlycaf o ddimensiwn y Tir yw'r mynydd. Dewiswch o blith y cadwyni o fynyddoedd a darganfyddwch heddwch yno.

MÔR

Dyma lle mae'r Tri Dimensiwn yn cwrdd, ac mae ganddo briodweddau iachusol a glanweithiol arbennig. Ewch allan i'r dŵr a gadewch iddo fod yn falm i'ch enaid.

Dewch i'ch trwytho eich hun yn yr elfennau y bu'r Celtiaid yn eu haddoli unwaith.

Foel Eryr,
Sir Benfro

ENGHREIFFTIAU O ANTURIAETHAU CELTAIDD


SYRFFIO DROS DRAETH Y BORTH CEREDIGION

Mae arfordir Cymru yn enwog am ei fannau syrffio eithriadol, a gellir dadlau bod yma rai o'r goreuon yn y DU. Mae 3 milltir o dywod a graean bras yn gwneud y Borth yn lle cyffrous, ychydig yn wyllt i syrffio. Mae'r profiad gorau i'w gael adeg llanw uchel, yn enwedig os yw'n ddiwrnod stormus gydag ymchwydd mawr yn y de-orllewin. Cadwch lygad am weddillion coedwig suddedig hynafol Cantre'r Gwaelod - ar lanw isel byddwch yn gallu gweld boncyffion coed cynhanesyddol a mawn yn y tywod.



LLWYBRAU CERDDED TINTERN SWYDD WEXFORD

Mae'r 4 taith gerdded ddolennog hyn yn cychwyn o ben y llwybr yn Abaty Tintern, ac yn cynnig cyfuniad o goetiroedd tawel a theithiau cerdded arfordirol. Mae'r llwybrau, sy'n amrywio o daith gerdded fer 20 munud i daith gerdded 2 awr, yn mynd â chi heibio i rai o uchafbwyntiau Penrhyn Hook: Abaty Tintern, Gardd Furiog Colcough a Phentref Saltmills. Dylai pobl sy'n hoff o fywyd gwyllt gadw llygad ar agor am las y dorian, crehyrod bach copog, bwncathod, gwiwerod coch ac ystumod ar y llwybrau mewndirol ac adar môr mudol fel gwyddau du ar hyd yr arfordir.



TREFTADAETH GELTAIDD

Ceir cwlwm annatod rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n deillio o'u treftadaeth gyffredin o groesau hynafol, adfeilion capeli a cherrig sanctaidd. Gadawodd y mudwyr Gwyddelig a ymgartrefodd yng Nghymru yn y bumed ganrif eu hól ar ffurf cerrig Ogam sydd i'w gweld ar hyd arfordir y wlad hyd heddiw. Yn gyfnewid, rhoddodd Cymru San Padrig i Iwerddon - yn ôl y sôn.

Dewch i weld sut mae'r gorffennol yn dylanwadu ar fywyd bob dydd yn y cornelyn hwn o'r ddaear.

Gaeltacht na nDéise,
Waterford

ENGHREIFFTIAU O DREFTADAETH GELTAIDD

MWYNGLODDIAU AUR DOLAUCOTHI SIR GÂR

Pa blentyn (neu oedolyn, o ran hynny) na hoffai roi cynnig ar banio am aur? Dyna un o'r profiadau a gynigir yn y cloddfeydd aur hyn, a leolir yn Nyffryn Cothi hardd. Dechreuodd y Rhufeiniaid chwilio am y metel gwerthfawr yma 2,000 o flynyddoedd yn ôl, gan gerfio llethrau brynau a dargyfeirio afonydd i ddod o hyd iddo. Parhaodd y mwyngloddio hyd 1938. Bydd teithiau tywys yn mynd â chi yn ôl mewn amser i brofi'r amodau garw dan ddaear mewn gweithfeydd Rhufeinig a Fictoraidd.



BRENIN Y LLYCHLYNWYR SWYDD WATERFORD

Dewch i ymgolli eich hun ym myd y Llychlynwyr mewn modd na welwyd mohono o'r blaen, yn Vadrafjord (Waterford), dinas hynaf Iwerddon. Profiad rhith-wirionedd Brenin y Llychlynwyr yw'r cyntaf o'i fath yn y byd a bydd yn mynd â chi'n ôl 1,100 o flynyddoedd i gwrdd wyneb yn wyneb â Reginald, arweinydd chwedlonol y Llychlynwyr a sylfaenydd y ddinas. Mae'r antur yn digwydd mewn tŷ Llychlynnaidd wedi'i adeiladu â llaw, gan blethu'n ddi-dor dechnegau adeiladu arloesol a thechnegau adeiladu Llychlynnaidd hynafol.



TIROEDD A MOROEDD CELTAIDD

'Y Tri Sanctaidd yw hanfod ein tir sef
Awyr, Tir a Môr.' (O fendith y
Derwyddon Celtaidd)

Credai'r hen Geltiaid fod gan
blanhigion, anifeiliaid a hyd yn oed
wrthrychau difywyd hanfod ysbrydol.
O'r herwydd, roeddent yn byw yn
gydnaws â byd natur. Pery'r ffordd hon
o fyw hyd heddiw.

Mae tirweddau'r corneli hyn o Gymru
ac Iwerddon bron fel darluniau drych
o'i gilydd, gydag ond y môr yn eu
gwahanu. Ceir traethau hir heb eu
difetha ar hyd arfordir y ddwy wlad,
sydd wedyn yn arwain at gefn gwlad
bryniog a thoreithiog gyda chadwyni o
fynyddoedd trawiadol i'w gweld yn
codi yn y pellter.

Dewch i deimlo grym natur ym mhob
mynydd, afon, coeden a chraig.

Pentywyn,
Sir Gâr

ENGHREIFFTIAU O DIROEDD A MOROEDD CELTAIDD

MYNYDDOEDD Y PRESELI SIR BENFRO

Ewch am dro ar hyd llwybrau hynafol
trwy un o'r tirweddau cynhanesyddol
mwyaf hudolus - mor llesmeiriol fel y
caiff ei hadnabod fel Gwlad Hud a
Lledrith. Mae gan y Preseli orffennol
cyfoethog a dramatig, yn anad dim fel
ffynhonnell chwedlonol y Cerrig
Gleision sy'n ffurfio cylch mewnol Câr y
Cewri (Stonehenge). Mae gweddillion
cynhanesyddol, carneddau claddu a
bryngaerau o Oes yr Haearn yn
britho'r rhostir gwyllt a'r
glaswelltiroedd.

DUNMORE EAST SWYDD WATERFORD

Mae Dunmore East yn bentref pysgota
bach prydferth ar ben clogwyn. Mae'n
edrych dros nifer o gildraethau tywodlyd
sy'n ddelfrydol ar gyfer nofio, snorclo,
cerdded neu ddim ond ymlacio. Mae'n
lle poblogaidd ymhlith pobl Waterford
sy'n mwynhau cerdded ar hyd y pier a
gwyllo criwiau'r cychod pysgota yn
dadlwytho'u dalfeydd dyddiol. Os ydych
yn lwcus, efallai y byddwch yn gweld
morlo yn yr harbwr, yn aros am
bysgodyn gan bysgotwr caredig.



LLEOEDD CELTAIDD

Mae pob ffordd yn ein cornelyn ni o'n byd yn eich arwain i dir yr hynafiaid.

Archwiliwch olion bryngaer o Oes yr Haearn a chymerwch olwg ar fywyd bob dydd y llwythau Celtaidd. Talwch deyrnged wrth siambr gladdu o gerrig, sy'n adlewyrchu cred y Celtaid yn y byd a ddaw. Gwrandewch ar chwedl leol am gawr a daflodd garreg Ogam i lawr bryn – a gwelwch drosoch eich hun y sgriffiadau a adawyd gan ei ewinedd yn y graig. Crwydrwch o amgylch dinasoedd mynachaid lle bu'r seintiau wrthi'n sefydlu'r aneddiadau Cristnogol cyntaf.

Dewch i ddarganfod y lleoedd a'r bobl a luniodd ddiwylliant Cymru ac Iwerddon.



Hafod,
Ceredigion

ENGHREIFFTIAU O LEOEDD CELTAIDD

CYDWELI SIR GÂR

Castell Normanaidd Cydweli, a saif ar lannau Afon Gwendraeth, yw un o'r enghreifftiau gorau o'i fath sydd wedi goroesi yng Nghymru. Cadwch lygad am y bwâu lle gallai creigiau fod wedi cael eu taflu at y gelyn diarwybod islaw. Bydd edmygwyr Monty Python yn adnabod y castell o olygfa gyntaf Monty Python and The Holy Grail. Camlas Kymer Cydweli yw'r hynaf yng Nghymru, a adeiladwyd ym 1766. Adeiladwyd y gamlas yn wreiddiol i gludo glo allan o'r dref, ac mae bellach yn hafan i fywyd gwyllt ac yn daith gerdded ddymunol.



DYFFRYN AVOCA SWYDD WICKLOW

Fel ardal sy'n gysylltiedig â'r diwydiant mwyngloddio copr, anfarwolwyd y dyffryn gan Thomas Moore yn y gân 'The Meeting of the Waters'. Y dyfroedd dan sylw yw afonydd Avonmore ac Avonbeg, sy'n cwrdd tua 2 filltir o bentref Avoca. Mae hefyd yn nodi'r man cychwyn ar gyfer taith gerdded esmwyth ar hyd gwaelod y dyffryn. Yn ogystal â bod yn enwog am wehyddu â llaw, Avoca oedd pentref ffuglennol 'Ballykissangel' yn y gyfres o'r un enw a ddarlledwyd gan y BBC tua diwedd y 90au.



STORÏAU CELTAIDD

Amser maith yn ôl, roedd y Celtiaid yn tra-arglwyddiaethu ar rannau eang o Ewrop – o Ynysoedd Prydain yn y gorllewin i Dwrci yn y dwyrain. Roeddent yn trosglwyddo eu hanesion cyffrous am anturiaethau, arwriaeth, rhamant a hud a lledrith ar dafod-leferydd. Yna, cawsant eu goresgyn gan y Rhufeiniaid ac wrth i'w hymerodraeth dyfu, cafodd llawer o'r fytholeg Geltaidd hon ei cholli am byth. Ond llwyddom ni Geltaid Cymru ac Iwerddon i gadw ein traddodiadau yn fyw, a diolch i ymdrechion y mynachod canoloesol diwyd a fu wrthi'n eu hysgrifennu, parhaodd ein chwedlau hefyd.

Dewch i glywed ein storïau, yn y dull Celtaidd. Wyneb yn wyneb – ac yn ddelfrydol, wedi ymgynnull o gwmpas tanllwyth o dân.

Parc Treftadaeth Cenedlaethol
Wexford

ENGHREIFFTIAU O STORÏAU CELTAIDD

PONTARFYNACH CEREDIGION

Mae tair pont ar wahân yn rhychwantu rhaeadrau 90 metr Afon Mynach – un wedi'i hadeiladu ar ben y llall rhwng yr 11eg a'r 19eg ganrif. Yn ôl y chwedl, adeiladwyd y bont wreiddiol gan y diafol gan ei bod yn dasg rhy anodd i feidrolion. Cytunodd i adeiladu'r bont yn gyfnewid am enaid y cyntaf i groesi'r bont. Fodd bynnag, cafodd ei drechu gan hen wraig gyfrwys a'i alltudio o'r wlad am byth.

CERRIG Y PIBYDD SWYDD WICKLOW

Mae'r cylch cerrig hwn o oes yr Efydd yn eistedd ar fryncyn yn Athgreany. Mae'n cynnwys 16 o gerrig gwenithfaen llwyd, ceir un garreg fwy o faint ar y cyrion – y pibydd – gyda'r cerrig llai sy'n weddill yn ffurfio cylch o tua 22 metr o ddiamedr. Dyma'r dawnsywyr. Yn ôl stori dylwyth teg leol, roedd y grŵp hwn o ddathlwyr yn meiddio dawnsio i dôn y pibydd ar y Saboth pan drodd Duw nhw i gyd i gerrig fel cosb.



POBL GELTAIDD

Roedd y Celtiaid yn rhyfelwyr brawychus, er mai'r cae rygbi yw bron yr unig fan lle gwelwch ni'n brwydro heddiw. Yn union fel ein cyndeidiau, fodd bynnag, rydym hefyd yn mwynhau dathlu buddugoliaeth a phan fyddwn yn gwneud hynny, caiff pawb eu gwahodd. Efallai ein bod yn cwrdd fel dieithriaid, ond mae'n sicr y byddwn yn ymwahanu fel ffrindiau.

Ar ba bynnag ochr i'r dŵr yr ydych chi, byddwch yn sylwi ein bod rhoi ein cyffyrddiadau telynegol ein hunain ar ein ffordd o siarad, wrth i ni adrodd storïau am bobl dda a drwg yn y Gymraeg, yn y Wyddeleg neu yn Saesneg.

Er gwaethaf y môr sydd rhyngom, rydym wedi'n huno trwy hen waed – dewch i weld dros och eich hun.

Traeth Annewtown,
Waterford

ENGHREIFFTIAU O BOBL GELTAIDD

CASTELL HENLLYS SIR BENFRO

Lle bynnag mae pobl yn mynd, rydym yn gwneud ein marc. Nid oedd pobl hynafol Gogledd Sir Benfro yn eithriad hyn o beth, gan iddynt adael dim llai nag 8 safle cynhanesyddol yn yr ardal. Castell Henllys yw'r unig bentref Oes Haearn ym Mhrydain a ailadeiladwyd ar yr union safle lle'r oedd ein hynafiaid Celtaidd yn byw 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Dilynwch y llwybr troednoeth trwy raeau fflint, clai slwtshlyd a bonion coed a byddwch yn llythrennol yn cerdded yn ôl troed llwyth y Demetae.



FFORDD NORMANAIDD SWYDD WEXFORD

Yn 1169, daeth Diarmuid MacMurrough, a ddisodlwyd fel Brenin Leinster, â marchogion Normanaidd i Iwerddon i'w helpu i adennill ei Deyrnas. Glaniodd y lluoedd hyn am y tro cyntaf ym Mae Bannow. Wedi i MacMurrough farw, daeth y marchog Normanaidd Richard de Clare – 'Strongbow' yn llywodraethwr de facto Leinster ac ar ôl hynny, ni wnaeth y Normaniaid fyth adael mewn gwirionedd. Teithiwch ar hyd y ffordd Normanaidd yn Wexford a darganfod sut y dylanwadodd eu ffordd o fyw ar Iwerddon a'i newid yn y pen draw.



HYRWYDDO LLWYBRAU CELTAIDD

Bydd Llwybrau Celtaidd yn cael budd o ymdrech sylweddol o ran marchnata a chysylltiadau cyhoeddus.

Bydd y gweithgarwch yn cynnwys ymgyrch hysbysebu digidol sylweddol a fydd yn targedu teithwyr posibl yn ein marchnadoedd targed yn benodol, sef y DU, UDA, yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Bydd llawer o hysbysebu oddi allan i'r cartref ym meysydd awyr Caerdydd, Dulyn a Bryste yn ogystal ag ar safleoedd penodol wrth i bobl deithio i Gymru ac Iwerddon.

Bydd gan Llwybrau Celtaidd bresenoldeb mewn sioeau teithio rhyngwladol a domestig a bydd yn cael sylw mewn cyhoeddiadau teithio uchel eu proffil penodol, gan gynnwys atodiad teithio The Times, cylchgrawn Visit Britain, cylchgrawn ar awyren Aer Lingus, Discover Britain a chyhoeddiadau penodol yn yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd.

Bydd hyn oll yn cael ei gefnogi gan ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a fydd yn codi proffil Llwybrau Celtaidd ymhlith ein marchnadoedd targed. Cofiwch gadw llygad ar ein sianeli cymdeithasol ac adran fasnach gwefan Llwybrau Celtaidd i gael gwybodaeth am sut i gymryd rhan yn y gwaith hyrwyddo a chysylltiadau cyhoeddus yn ymwneud â Llwybrau Celtaidd. Mae arnom angen eich cymorth chi ac rydym am ichi elwa o'r ymgyrch sylweddol hon.

Llwybr Clogwyn Penrhyn Bray,
Wicklow

PETHAU BYCHAIN

Yn ymarferol, mae 1,001 o bethau y gallwch chi eu gwneud i gymryd rhan.

Byddwn yn gweithio'n galed gyda busnesau ledled y 6 sir i greu a hyrwyddo profiadau gwirioneddol Geltaidd. Ond peidiwch â meddwl bod yn rhaid i bopeth fod yn fawr a bod angen cyllideb farchnata enfawr a thîm o arbenigwyr digidol.

Rhai o eiriau olaf Dewi Sant, nawddsant Cymru, oedd:

"Gwnewch y pethau bychain mewn bywyd"

Mae'n egwyddor y mae llawer o bobl yn dal i'w dilyn heddiw. A hoffem annog busnesau i ddatblygu mentrau lleol, bach i wella'r profiad Llwybrau Celtaidd, gan fod pob gweithred fach yn dod yn rhan o'r darlun cyfan. Byddwch mor greadigol ag y dymunwch wrth gynnig eich dehongliad chi o Lwybrau Celtaidd; mae miloedd o flynyddoedd i'ch ysbrydoli.

DYMA RAI SYNIADAU I'CH HELPU...

- Edrychwch am deithiau cerdded lleol ar hyd yr arfordir ac yng nghefn gwlad – a rhowch wybodaeth amdanynt i ymwelwyr
- Trefnwch gydweithio â rhai darparwyr gweithgareddau lleol i gynnig pecynnau cynhwysol neu ostyngiadau arbennig
- Chwiliwch am dalent gudd yn eich busnes eich hun. A oes gennych chi unrhyw gerddorion, cantorion neu ddawnsywyr traddodiadol, neu bobl sy'n frwd dros fywyd gwyllt neu hanes lleol ar eich fîm? A allent gynnig arddangosiadau neu sgysiau i'ch ymwelwyr?
- Anogwch eich ymwelwyr i archwilio'r ardal heb gar, lle bo'n bosibl, drwy gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Arddangoswch wybodaeth megis mapiau yn dangos llwybrau troed lleol, cwmnïau llogi beiciau ac amserlenni bysiau
- Dysgwch rai o'r mythau a'r chwedlau Celtaidd sy'n gysylltiedig â'ch ardal. Ystyriwch gopïo ac argraffu rhai ohonynt er mwyn i'ch ymwelwyr eu darllen. Gallech ddangos copïau o storïau Celtaidd yn lle papurau newydd (mae'r storïau'n fwy credadwy, fwy na thebyg!)
- Neilltuwch amser i ymweld â rhai o'r safleoedd treftadaeth yn eich ardal leol. Yna byddwch yn gallu eu hargymell i ymwelwyr gan ddefnyddio profiad uniongyrchol
- Mae gan Gymru ac Iwerddon eu hieithoedd hynafol a hardd eu hunain a bydd annog ymwelwyr i ddysgu ychydig o'r iaith yn ystod eu harhosiad, hyd yn oed y sgysiau mwyaf sylfaenol, yn eu helpu i deimlo eu bod yn cysylltu â'r lle a'r bobl
- Chwiliwch am artistiaid lleol y mae tirweddau lleol neu gelf Geltaidd yn dylanwadu arnynt. Efallai y gallent ddarparu rhai darnau i addurno eich busnes yn gyfnewid am le bach i arddangos eitemau i'w gwerthu i ymwelwyr
- A oes gennych ddelweddau y gallwch eu defnyddio sy'n cyd-fynd yn dda â brand a themâu Llwybrau Celtaidd? Tirweddau, arfordir, natur, treftadaeth, gweithgareddau, pobl, ac ati. Nid oes angen ffotograffiaeth ddud arnoch; gallwch dynnu llun gwych drwy ddefnyddio ffôn clyfar neu gamera digidol.

Pumlumon,
Ceredigion

LLWYBRAU CELTAIDD ASEDAU BRAND

Mae partneriaeth Llwybrau Celtaidd wedi creu cyfres o asedau brand y gallwch eu defnyddio i hyrwyddo eich cysylltiad â'r fenter Llwybrau Celtaidd.

FFOTOGRAFFIAETH

Mae casgliad gwych o Fannau, Eiliadau a Darganfyddiadau Llwybrau Celtaidd ar gael i chi er mwyn hyrwyddo eich cysylltiad â'r fenter Llwybrau Celtaidd.

FFILM

Mae ffilm 90 eiliad sy'n adrodd y stori Llwybrau Celtaidd ar gael i chi er mwyn hyrwyddo eich cysylltiad â Llwybrau Celtaidd.

CANLLAWIAU'R BRAND

Mae Canllawiau'r Brand Llwybrau Celtaidd yn ein helpu i ddweud wrth y byd pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn sefyll drosto. Mae'n unigryw ac yn nodweddiadol ac mae'n ein huno ym mhopeth a wnawn. Drwy ein brand eiconig, ein harddull weledol a'n tŷn llais dilyn, rydym yn gallu adrodd hanes Llwybrau Celtaidd mewn ffordd gydlynus, ddeniadol a chymhellol. Mae copi ar gael sy'n dangos i chi sut y gallwch ddefnyddio'r hunaniaeth i gefnogi eich ymdrechion marchnata eich hun.

DEFNYDDIO ASEDAU'R BRAND LLWYBRAU CELTAIDD

Ymunwch â ni i hyrwyddo Llwybrau Celtaidd i'r byd. I ddefnyddio ein hasedau brand i hyrwyddo eich cysylltiad â'r fenter hon, anfonwch eich cais i un o'r cyfeiriadau isod:

info@celticroutes.irish

info@celticroutes.wales

gwybodaeth@llwybrauceltaidd.cymru

Coedwig Mynwyr,
Sir Benfro

YR ADDEWID CELTAIDD

Credai'r hen Geltaid fod gan blanhigion, anifeiliaid a hyd yn oed wrthrychau difywyd hanfod ysbrydol. Ond roeddent hefyd yn sylweddoli bod yn rhaid iddynt ddefnyddio natur er mwyn goroesi. Yr unig ffordd y gallent fod wedi gwneud hyn oedd trwy ddod i adnabod y byd naturiol yn fanwl a meithrin perthynas o barch tuag ato, fel y gallent fyw mewn cytgord ag ef.

Gyda hyn mewn golwg, rydym yn annog pob ymwelydd â'n gwledydd hynafol i barchu'r amgylchedd trwy ymrwymo i'r Addewid Celtaidd. Mae'r addewid hwn yn seiliedig ar 7 egwyddor 'Gadael Dim ar Ôl', arferion effaith leiaf posibl i fwynhau'r awyr agored mewn modd cyfrifol.

Gallwch ein helpu i wneud hyn drwy ddangos yr Addewid mewn rhan amlwg o'ch busnes. Gorau oll os gallwch chi ymrwymo i'r addewid eich hun yn yr un modd â'r siroedd partneriaeth, drwy gynorthwyo ymwelwyr i fodloni telerau'r addewid. Wedyn bydd pawb ar eu hennill – yn enwedig ein tiroedd prydferth.

WRTH DEITHIO AR HYD LLWYBRAU CELTAIDD:

Byddaf yn chwilio am antur,
Ond byddaf yn barod am bob math
o dywydd a phosibiliad.

Byddaf yn defnyddio trafnidiaeth
gyhoeddus lle gallaf,
Ac byddaf yn ystyriol o eraill
pan fyddaf yn teithio ar fy liwt fy hun.

Byddaf yn archwilio byd natur,
Ond yn cadw pellter parchus
i'w ddiogelu.

Byddaf yn parchu'r gorffennol,
Ac ni fyddaf yn cymryd yr hyn nad
yw'n eiddo i mi.

Byddaf yn cadw'r presennol fel
y mae, Ac ni fyddaf yn gadael dim
i eraill ei lanhau.

Byddaf yn dilyn olion traed
yr Hen Geltaid,
Gan adael dim olion ar fy ôl

Talacharn,
Sir Gâr

LLWYBRAU CELTAIDD MANYLION CYSWLLT

DARGANFOD SIR GÂR

www.darganfodsirgar.com

Tŷ'r Castell, Castell Caerfyrddin,
Rhiw'r Castell, Caerfyrddin, SA31 1AD

Rhif ffôn: +44 (0)1267 231557

DARGANFOD CEREDIGION

www.darganfodceredigion.cymru

Gwasanaeth Twristiaeth,
Canolfan Rheidol, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UE

Ebost: croeso@ceredigion.gov.uk

Rhif ffôn: 01970 612125

PARC CENEDLAETHOL

www.arfordirpenfro.cymru

Pencadlys Awdurdod y Parc
Cenedlaethol, Llanion, Doc Penfro,
Sir Benfro, SA72 6DY

Ebost:

gwybodaeth@arfordirpenfro.org.uk

Rhif ffôn: 01646 624800

WEXFORD

www.visitwexford.ie

Tourism Officer, Wexford County
Council, County Hall, Carricklawn,
Wexford, Y35 WY93

Ebost: Billy.Byrne@wexfordcoco.ie

Rhif ffôn: 053 9196556

WICKLOW

www.visitwicklow.ie

Tourism Officer, Wicklow County
Council, County Buildings, Whitegates,
Wicklow, A67 FW96

Ebost: fred@visitwicklow.ie

Rhif ffôn: 0404 200 70

WATERFORD

www.visitwaterford.com

Tourism Officer, Waterford City
& County Council, 35 The Mall,
Waterford, X91 DN23

Ebost: oholohan@waterfordcouncil.ie

Rhif ffôn: 0761102687

Mae'r Pecyn Cymorth Busnes hwn a'i gynnwys
ar gael, ar gais penodol yn unig, wedi ei
gyfieithu i'r iaith Wyddeleg, ac eithrio enwau
lleoedd sydd o darddiad a defnydd Cymreig.



Black Castle,
Wicklow

